



Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

Meithrinfa Plas Pawb

**Canolfan Integredig Plas Pawb
Safle Ysgol Maesincla
Maesincla
Caernarfon
LL55 1DF**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg



Dyddiad Cyhoeddi

16 Mai 2018

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid ichi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Meithrinfa Plas Pawb wedi'i lleoli ar dir Ysgol Gynradd Maesincla, Caernarfon, ac mae'n rhan o Ganolfan Integredig Plas Pawb. Mae gan y gwasanaeth ddwy ystafell chwarae ddynodedig a chyfleusterau ac mae'n defnyddio ystafell chwarae'r cylch meithrin cyfagos ar gyfer darpariaeth clwb ar ôl ysgol. Mae'r plant yn gallu defnyddio ardaloedd awyr agored bach amgaaedig, y mae un ohonynt yn cael ei rhannu â'r cylch meithrin. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ofalu am hyd at 52 o blant o dri mis i ddeuddeg mlwydd oed ar unrhyw un adeg ac mae'n gweithredu rhwng 8am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Cyngor Gwynedd yw'r darparwr cofrestredig, a Sioned Owen yw'r unigolyn cyfrifol. Zara Khan yw'r person sy'n gyfrifol am redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu'r 'cynnig gweithredol', sy'n golygu bod modd i blant a rhieni gyfathrebu â staff drwy gyfrwng y Gymraeg heb orfod gofyn am hyn. Prif iaith y gwasanaeth yw'r Gymraeg.

Crynodeb o'n canfyddiadau

1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth. Maent yn hyderus i fynegi eu safbwyntiau ac maent yn gwneud penderfyniadau am eu bod yn gwybod y bydd eu dewisiadau'n cael eu parchu. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda, ac maent yn ymatebol i anghenion y plant.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant fynediad i fannau dan do ac awyr agored diogel ac addas lle gallant chwarae ac archwilio, ond mae angen iddynt sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu hymarfer yn rheolaidd i sicrhau bod y plant yn ymwybodol o sut i ymadael â'r safle'n ddiogel mewn argyfwng. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd. Mae ganddynt bartneriaethau da â rhieni ac asiantaethau eraill i sicrhau bod y gwasanaeth yn effeithiol wrth fodloni anghenion y plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn derbyn cefnogaeth yn eu rolau a bod gweithdrefnau recriwtio cadarn ar waith i sicrhau bod plant yn derbyn gofal gan staff sy'n addas i ddarparu'r gofal hwnnw.

2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf mae arweinwyr wedi buddsoddi yn ardaloedd awyr agored y safle. Mae canopiâu yn y broses o gael eu gosod ym mlaen yr ystafell fabanod er mwyn rhoi mwy o loches i'r plant iau fwynhau cymaint o amser yn yr awyr agored â phosib. Mae canopiâu wedi cael eu gosod ac mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i fynedfa flaen y safle, gyda chynlluniau i ddatblygu'r ardal hon ymhellach. Mae gwelliannau hefyd wedi cael eu gwneud i'r toiledau, gan alluogi i'r plant yn y clwb ar ôl ysgol gael mynediad iddynt heb orfod cerdded drwy'r ystafelloedd chwarae lle mae'r plant iau yn derbyn gofal.

Mae'r gwasanaeth hefyd wedi derbyn Dyfarniad e-Quality Counts Lefel 3 gan y Gymdeithas Meithrinfeydd Dydd Genedlaethol.

Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, gwnaethom dderbyn tystiolaeth bod ymarfer tân wedi cael ei gynnal yn y feithrinfa.

3. Gofynion ac argymhellion

Rydym wedi hysbysu'r unigolyn cyfrifol bod angen gwelliannau o ran amllder yr ymarferion tân (Rheoliad 38) er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llwyr. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio y tro hwn am nad oedd effaith na risg sylweddol i blant. Rydym yn disgwyl i'r person cofrestredig gymryd camau i gywiro hyn.

Gwnaed argymhellion mewn perthynas â datblygu sgiliau hunangymorth mewn plant iau a'r wybodaeth sy'n cael ei chynnwys mewn rhai polisïau.

1. Llesiant

Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi ymgartrefu ac yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth. Maent yn teimlo'n hyderus i fynegi eu safbwyntiau ac yn gallu gwneud dewisiadau a dilyn eu diddordebau yn ôl eu dymuniad. Mae'r plant wedi ffurfio perthnasau cadarnhaol â'r staff a'u cyfoedion, ac mae ganddynt ddigon o gyfleoedd i ddysgu a datblygu.

Ein canfyddiadau

1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Mae'r plant yn ddigon hyderus i fynegi eu barn a'u safbwyntiau a pherchir eu dewisiadau.

Roedd y plant yn rhydd i ddewis yr hyn yr oeddent am chwarae gydag ef. Yn yr ystafell fabanod, roedd gweithgareddau wedi cael eu gosod iddynt ddewis ohonynt yn ystod y bore, er enghraifft, blociau adeiladu, ffigurau anifeiliaid, teganau cerddorol, siop ffrwythau a llysiau â bwyd chwarae. Roedd y plant yn archwilio'r gweithgareddau o'u dewis yn rhydd ac yn symud o gwmpas y gwahanol fannau yn ôl eu dymuniad. Roedd y plant yn hyderus i fynd at y staff a gofyn am yr hyn roeddent yn ei ddymuno. Er enghraifft, roedd dau o'r babanod wedi dangos i'r staff eu bod am chwarae gyda'r cerrig sarn cerddorol, ac mi wnaeth y staff fynd i ôl y rhain yn syth. Yn yr ystafell i blant bach, roedd y plant yn hyderus i fynegi eu barn yn ystod gweithgaredd grŵp. Roedd y plant yn cyfrannu syniadau i'r stori ryngweithiol ac roeddent yn gyfforddus wrth gysylltu'r stori â'u profiadau blaenorol a rhannu'r rhain â'r staff. Y plant oedd yn penderfynu ar gyflymder pob gweithgaredd ac roedd y staff yn ymateb yn gadarnhaol i'w dymuniadau a lefel eu brwdfrydedd. Roedd dewisiadau ac anghenion y plant yn cael blaenoriaeth dros y drefn ddyddiol. Er enghraifft, roedd y babanod yn gallu cysgu pan oeddent wedi blino. Roedd y rhai hynny a oedd yn cysgu dros amser cinio'n cael eu cinio'n hwyrach pan oeddent yn barod i fwyta. Wrth gyrraedd y clwb ar ôl ysgol, mi wnaeth dau blentyn fynegi eu dymuniad i greu basged Pasg yn syth wrth iddynt gyrraedd. Er bod y gweithgaredd hwn wedi cael ei gynllunio ar gyfer ar ôl amser te, mi wnaeth aelod o staff eu cefnogi'n gyflym i osod y deunyddiau angenrheidiol fel eu bod yn gallu cwblhau'r gweithgaredd yn syth.

Mae'r plant yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau drostynt eu hunain.

1.2 I ba raddau mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi ymgartrefu ac yn gyfforddus yn yr amgylchedd sydd o'u cwmpas.

Roedd y plant yn hapus i adael eu rhieni wrth iddynt eu gollwng, ac roeddent yn awyddus i ymuno â'u ffrindiau i chwarae. Roeddent wedi ymgartrefu ac wedi ymlacio ac roeddent wedi ffurfio perthynas agos gyda staff. Roedd y plant yn gallu gofyn am gymorth neu geisio sicrwydd pan oedd angen. Er enghraifft, mi wnaeth un o'r babanod ddisgyn wrth chwarae gyda'r teganau cerddorol a dechrau crio. Aeth yn syth at aelod o staff cyfarwydd i geisio cysur, gan gerdded tuag ato a dal ei freichiau allan i gael ei godi. Mi wnaeth y plentyn

ddistawi'n syth ac roedd yn teimlo'n ddiogel ar ôl derbyn cofleidiad a chysur gan yr aelod o staff. Roedd plentyn arall wedi ceisio cysur yn syth gan aelod o staff cyfarwydd pan gafodd anghydfod bach â'i ffrind a distawodd yn gyflym ar ôl derbyn cefnogaeth. Drwy gydol y dydd, roedd y plant yn dilyn trefn ddyddiol a oedd yn gyfarwydd iddynt, ac roedd hyn yn rhoi ymdeimlad o sefydlogrwydd iddynt. Roedd y plant yn y tair ystafell yn hyderus wrth ddod atom, i siarad â ni am yr hyn roeddent yn ei wneud ac i ddangos y teganau roeddent yn chwarae â nhw i ni.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel am eu bod yn cael gofal cyson ac annwyl gan staff y maent yn eu hadnabod yn dda.

1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn meithrin cyfeillgarwch â'i gilydd ac yn dysgu i gymryd eu tro a rhannu.

Roedd y plant wedi meithrin perthnasoedd cadarnhaol â'u cyfoedion ac roedd hyn yn oed y plant ieuengaf yn hapus i rannu adnoddau a chymryd eu tro. Er enghraifft, gwnaeth dau o'r plant bach iau gymryd eu tro wrth gerdded ar hyd rhes o gerrig sarn cerddorol, gan beri llawer o chwerthin a gwenu gan y ddau blentyn wrth iddynt ysgwyd eu ratlau a gwneud llawer o sŵn wrth iddynt symud. Roedd grŵp o blant hŷn yn hapus i gymryd eu tro i chwarae gyda phram doliau gydag ychydig o berswâd gan aelod o staff. Gwnaeth y plant aros yn amyneddgar am eu tro ac roeddent yn hapus i roi tro i'w ffrindiau pan fo eu tro nhw wedi dod i ben. Gwnaeth y plant sgwrsio'n hapus gyda'i gilydd am eu teuluoedd a'r pethau roeddent yn eu hoffi. Er enghraifft, sgwrsiodd un plentyn â phlentyn arall am sut roedd yn hoffi mynd i fwydo'r elyrch gyda'i dad-cu, gan ofyn i'w ffrind a oedd yntau hefyd yn hoffi elyrch.

Mae'r plant wedi meithrin perthnasau cadarnhaol ac maent yn rhyngweithio'n dda gyda'u ffrindiau.

1.4 I ba raddau mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae'r plant yn cael llawer o ysgogiad ac yn brysur yn eu chwarae.

Roedd plant o bob oedran wedi ymgolli'n llwyr yn eu gweithgareddau ac roeddent yn canolbwyntio'n dda am gyfnod priodol o amser. Roedd ganddynt ddiddordeb yn yr amrywiaeth eang o weithgareddau ac roeddent yn awyddus i ddangos i'w ffrindiau'r hyn roeddent yn ei wneud. Er enghraifft, roedd grŵp bach o fabanod yn mwynhau archwilio'r toes chwarae. Gwnaethant ganolbwyntio'n dda ar wasgu'r toes a gwthio'r torwyr i'r toes, wedyn dal y toes chwarae i fyny i ddangos i'w ffrindiau. Roedd grŵp o blant yn chwarae gyda'i gilydd yn yr ystafell i blant bach yn cymryd rhan mewn gweithgaredd symud i stori. Roeddent yn dwlu ar gopïo symudiadau, copïo symudiadau anifeiliaid gwahanol a chyfrannu syniadau at yr hyn yr hoffai'r prif gymeriad am ei frechwast. Cafwyd llawer o chwerthin a gwenu wrth i'r plant gopïo pob symudiad ac wrth i'r stori ddatblygu.

Roedd y plant yn chwilfrydig, wedi'u hymddiddori ac wedi'u cyffroi gan weithgareddau a oedd yn eu caniatáu i ddysgu a datblygu'n dda.

1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac i ddysgu bod yn annibynnol.

Roedd y plant yn cael cyfleoedd i ddysgu a chyfarwyddo eu chwarae ac roeddent yn cael eu hysgogi'n naturiol i ddewis gweithgareddau fel y dymument. Roedd adnoddau'n cael eu storio mewn ffordd oedd yn galluogi'r plant i gael mynediad atynt yn hawdd ac yn annibynnol. Anogwyd y plant i dacluso ar eu holau yn ystod y cyfnodau newid gweithgaredd, a chawsant eu hannog hefyd i olchi eu dwylo a'u hwynebau a sychu eu trwynau eu hunain pan oedd angen. Yn y clwb ar ôl ysgol roedd y plant yn cael eu hannog i helpu i weini'r prydau ac arllwys y diodydd. Fodd bynnag, collwyd cyfleoedd i'r plant iau ymarfer eu sgiliau annibyniaeth oherwydd bod plant eraill yn gweini eu prydau a'u diodydd iddynt. Byddai galluogi plant iau i helpu gyda thasgau megis gosod y byrddau'n helpu eu datblygiad ac yn annog eu hannibyniaeth.

Mae gan y plant amrywiaeth eang o brofiadau sy'n eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau a dilyn eu diddordebau, ond gallai rhagor o gyfleoedd gael eu darparu i blant iau ymarfer eu sgiliau annibyniaeth yn ystod amser byrbrydau a phrydau.

2. Gofal a Datblygiad

Crynodeb

Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth ar waith yn unol â hynny. Maent yn gwybod y gweithdrefnau cywir i'w dilyn i gadw plant yn ddiogel a hyrwyddo bwyta'n iach. Mae staff yn ymwybodol o anghenion unigol y plant ac yn sicrhau eu bod yn cael eu diwallu. Darperir amrywiaeth o gyfleoedd i alluogi'r plant i ddatblygu a dysgu.

Ein canfyddiadau

2.1 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn ymwybodol o bwysigrwydd gweithio o fewn polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth.

Roedd y staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau i amddiffyn plant ac roedd y rhai y gwnaethom siarad â nhw'n gallu disgrifio'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryderon ynghylch plentyn. Roedd gan nifer priodol o staff gymhwyster cymorth cyntaf pediatrig cyfredol, sy'n golygu eu bod yn gallu mynd i'r afael ag argyfyngau ac anafiadau bychain. Roedd unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau a oedd wedi digwydd wedi'u cofnodi'n briodol a'u llofnodi gan rieni.

Roedd y staff yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw drwy ddarparu pryddau a byrbryddau maethlon a threfnu digon o weithgareddau awyr agored corfforol i'r plant. Roedd gan yr holl blant y cyfle i dreulio amser yn chwarae yn yr awyr agored yn ystod diwrnod ein hymweliad, gan sicrhau bod cyfleoedd iddynt gael ymarfer corff ac awyr iach. Roedd hylendid da'n cael ei hyrwyddo gyda'r staff yn annog ac yn cefnogi'r plant i olchi eu dwylo yn ôl yr angen. Roedd y staff hefyd yn gwisgo ffedogau tafladwy yn ystod amserau byrbryd a phryddau, ac roedd y plant yn derbyn bibiau a lleiniau golchi glân a oedd yn cael eu rhoi'n syth yn y fasedg olch ar ôl cael eu defnyddio, gan leihau'r perygl o groes-heintio.

Mae'r staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau ac yn dilyn gweithdrefnau yn effeithiol er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn helpu'r plant i ddysgu'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt ac yn annog cwrteisi gan ddefnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol.

Roedd y staff yn siarad â'r plant mewn modd cynnes ac annwyl. Ymdrinnir ag unrhyw ddadleuon neu ymddygiad digroeso'n syth gan ddefnyddio dulliau cadarnhaol. Er enghraifft, pan ddechreuodd un o'r plant daflu teganau, gwnaeth aelod o staff dynnu ei sylw drwy ei gyfeirio at fwrdd chwarae i adeiladu tŷ o'r briciau adeiladu. Mi wnaeth y plentyn fynd ati i ymgymryd â'r gweithgaredd hwn a thawelu. Gwnaeth y staff hefyd esbonio'n glir i'r plant pan nad oedd eu hymddygiad yn briodol, modelu ymddygiad cadarnhaol a helpu'r plant i ddysgu'r hyn a oedd yn ddisgwyliedig ohonynt. Roedd hyn yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth. Rhoddwyd digonedd o ganmoliaeth am ymddygiad cadarnhaol,

cwblhau gweithgareddau a rhoi cynnig ar bethau newydd drwy gydol y dydd. Roedd y staff yn annog y plant i fod yn gwrtais gydag ychydig o anogaeth, a chlod yn cael eu rhoi wrth i'r plant ddweud '*os gwelwch yn dda*' a '*diolch*'.

Mae gan y staff berthnasau cadarnhaol â'r plant ac maent yn modelu ymddygiad da ac iaith briodol yn effeithiol.

2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn adnabod ac yn deall anghenion y plant yn eu gofal. Maent yn ymatebol ac yn darparu amgylchedd meithringar.

Roedd gweithgareddau'n cael eu trefnu ymlaen llaw yn unol â'r thema. Roedd y rhain yn cael eu hamrywio gyda chymysgedd da o weithgareddau awyr agored a oedd yn annog archwilio a chwilfrydedd, a gweithgareddau â mwy o ffocws a oedd yn datblygu sgiliau echddygol manwl, llythrennedd a rhifedd. Roedd y staff yn gofyn cwestiynau am y gweithgareddau i alluogi'r plant i ddatblygu eu sgiliau iaith ac i'w cyflwyno i eirfa newydd. Er enghraifft, roedd y babanod yn cael eu hannog i enwi anifeiliaid, cyfri ac enwi lliwiau. Roedd samplau o waith y plant a ffotograffau o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau'n cael eu coladu mewn ffeil i bob plentyn. Roedd siartiau cynnydd yn cael eu cwblhau i blant a oedd yn rhan o'r fenter '*Dechrau'n Deg*'. Roedd hyn yn galluogi'r staff i gynllunio ar gyfer anghenion unigol y plant.

Roedd y staff yn darparu gofal mewn modd digyffro ac roeddent yn adnabod y plant yn dda. Roeddent yn annog plant i fwyta'n annibynnol ond roeddent wrth law i helpu pan oedd angen. Roedd y plant hŷn yn cael eu hannog i gyfrannu syniadau a thrafod eu teimladau. Er enghraifft, yn ystod y gweithgaredd stori symud, gofynnodd y staff gwestiynau megis '*Sut oedd y ffermwr yn teimlo pan gollodd ei wyau?*' ac yn y clwb ar ôl ysgol, roedd y plant yn cael eu hannog i roi eu henwau ar fwrdd arddangos emosiynau a thrafod pam roeddent yn teimlo fel hyn.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb yn effeithiol i'w hanghenion unigol.

3. Yr Amgylchedd

Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel a bod y risgiau'n cael eu lleihau lle y bo'n bosib. Fodd bynnag, mae angen iddynt sicrhau eu bod yn ymarfer gweithdrefnau ymarferion tân yn rheolaidd er mwyn i'r plant ymgyfarwyddo â'r hyn i'w wneud os oes argyfwng. Mae'r adnoddau o safon ac mae'r holl ardaloedd yn groesawgar ac yn ddiddorol i'r plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r offer yn addas i gynorthwyo datblygiad y plant.

Ein canfyddiadau

3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod peryglon yn cael eu nodi a bod mesurau priodol yn cael eu rhoi ar waith i leihau'r risgiau i ddiogelwch plant.

Roedd y drysau i'r adeilad yn cael eu cadw dan glo a gofynnwyd i ni ddangos ein dogfennaeth adnabod pan wnaethom gyrraedd yr adeilad. Roedd hyn yn atal mynediad heb awdurdod, gan sicrhau bod y plant yn ddiogel. Mae gan yr arweinwyr fesurau priodol ar waith i gadw plant yn ddiogel mewn argyfwng gan fod cofnodion cywir yn cael eu cadw o bresenoldeb dyddiol. Roedd arweinwyr wedi nodi peryglon ar y safle ac roedd y rhain wedi cael eu cynnwys mewn asesiadau risg ysgrifenedig cynhwysfawr sy'n dangos sut roedd risgiau'n cael eu rheoli a'u dileu lle y bo'n bosib. Roedd staff hefyd yn cynnal gwiriadau dyddiol o bob ardal cyn i'r plant gyrraedd y safle er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw beryglon newydd yn bresennol a bod yr amgylchedd yn lân ac yn ddiogel.

Roedd cofnodion yn dangos bod ymarferion tân wedi cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn. Gwnaethom siarad â'r unigolyn cyfrifol am hyn, a ddywedodd bod ymarferion tân yn cael eu cynnal mewn partneriaeth â'r ysgol. Byddai'n arfer da i'r feithrinfa gynnal ei hymarferion tân ei hun er mwyn sicrhau bod y staff a'r plant yn gyfarwydd â'u gweithdrefnau eu hunain ar gyfer ymadael â'r safle'n ddiogel. Gwnaethom hefyd nodi y cynhaliwyd yr ymarfer tân diwethaf ym mis Gorffennaf 2017, a oedd dros wyth mis cyn adeg yr arolygiad. Gwnaethom siarad â'r unigolyn cyfrifol am hyn, a'i hatgoffa am yr angen i ymarfer gweithdrefnau gwacáu brys ar adegau addas er mwyn sicrhau bod y plant a'r staff yn gyfarwydd â sut i ymadael â'r safle'n ddiogel mewn argyfwng. Gwnaeth yr unigolyn cyfrifol gydnabod hyn a chytuno i drefnu ymarfer tân yn ddi-oed. Ers hynny rydym wedi derbyn tystiolaeth bod ymarfer tân wedi cael ei gynnal.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel a bod plant yn ddiogel. Fodd bynnag, mae angen iddynt sicrhau bod gweithdrefnau gwacáu brys yn cael eu hymarfer ar gyfnodau addas.

3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant fynediad i fannau addas lle gallant archwilio a chwarae.

Roedd yr holl fannau a ddefnyddir gan y plant yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, gan ddarparu amgylchedd croesawgar a deniadol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn meithrin chwilfrydedd naturiol plant i ddysgu. Er enghraifft, roedd arddangosfeydd rhyngweithiol lliwgar wedi cael eu gosod ar y waliau ar uchder y plant er mwyn iddynt allu teimlo gwahanol weadeddau, gwneud synau, a datblygu eu sgiliau echddygol manwl drwy drin gleiniau a gwrthrychau eraill â llaw. Roedd yr ardal awyr agored yn cynnig digon o gyfleoedd i archwilio a chwarae i ddatblygu dychymyg y plant, gan gynnwys cegin fwd, ardal blannu, pwll tywod, tŷ chwarae, sleid a thrawstiau cydbwysu pren. Roedd ardal gerddorol hefyd wedi cael ei chreu â gwrthrychau metel wedi'u hailgylchu megis caead bin a chan dyfrhau.

Roedd yr ystafelloedd chwarae yn olau, yn awyrog ac wedi eu dylunio'n addas. Roedd yr ystafell i blant bach wedi'i threfnu'n ardaloedd dysgu yn unol ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Rhoddodd yr ystafell i blant bach fan tawelach a mwy cartrefol i fabanod â digon o fatiau a chlustogau meddal fel y gall y babanod gropian o amgylch ac archwilio'r amgylchedd yn ddiogel ac yn gysurus. Roedd yr adnoddau yma hefyd yn cael eu storio'n isel er mwyn i fabanod gael mynediad atynt yn annibynnol. Roedd enghreifftiau o waith y plant wedi'u harddangos yn falch ar y waliau, gan roi ymdeimlad o berthyn iddynt.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amgylchedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn, sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac sy'n groesawgar yn ychwanegu at ddysgu'r plant.

3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan blant fynediad hawdd at amrywiaeth eang o gyfarpar, teganau ac adnoddau diddorol a chyffrous.

Mae'r arweinwyr yn darparu teganau ar gyfer y plant sydd mewn cyflwr da ac sy'n addas ar gyfer oedran a chamau datblygiad y plant. Gwelsom fod adnoddau'n lân ac mewn cyflwr da ac roedd arweinwyr yn cadw cofnodion ysgrifenedig o'r holl dasgau glanhau. Roedd teganau'n cael eu storio'n briodol i sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n lân ac mewn cyflwr da y tu mewn ac yn yr awyr agored. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod plant yn elwa ar amrywiaeth eang o ddeunyddiau ac adnoddau drwy sicrhau bod y rhain yn cael eu cylchdroi a'u hailgyflenwi'n rheolaidd. Roedd amrywiaeth eang o adnoddau amlddiwylliannol a Chymraeg ar gael, gan gynnwys doliau, llyfrau a phosteri, a oedd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r offer yn addas ar gyfer anghenion y plant ac yn ychwanegu at eu dysgu a'u datblygiad.

4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn deall yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt, ac y darperir hyfforddiant er mwyn eu galluogi i ddiwallu anghenion unigol y plant. Caiff polisïau a gweithdrefnau eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd, gan sicrhau bod y plant yn elwa ar wasanaeth sy'n cael ei redeg yn dda ac ar staff sy'n gweithredu gweithdrefnau'n effeithiol. Mae'r arweinwyr wedi ymroddi i wella'r gwasanaeth maent yn ei ddarparu'n barhaus.

Ein canfyddiadau

4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau, ac maent yn rhannu eu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth â nhw'n effeithiol.

Roedd yr holl bolisïau a welsom yn briodol ac wedi'u hadolygu a'u diweddarau. Roedd y datganiad o ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, gan sicrhau y gallai rhieni wneud penderfyniad gwybodus ynghylch p'un a oedd y gwasanaeth yn gallu diwallu eu hanghenion nhw ac anghenion eu plentyn. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at y ffaith bod angen diweddarau rhif ffôn Arolygiaeth Gofal Cymru yn y datganiad o ddiben ac yn y polisïau. Roedd y polisi cwynion ar gyfer y gwasanaeth yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Gwnaethom nodi sut roedd yr arweinwyr wedi dilyn y gweithdrefnau priodol, fel yr amlinellir yn y polisi hwn yn dilyn cwyn diweddar. Roedd yr arweinwyr hefyd yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o bwysigrwydd gweithio o fewn polisïau'r gwasanaeth a'u rhoi ar waith yn ystod eu gwaith beunyddiol. Er enghraifft, gwelsom sut roedd y staff yn dilyn y polisi rheoli ymddygiad a'r polisi rheoli heintiau yn eu harferion dyddiol. Clywsom y staff yn siarad Cymraeg drwy gydol y dydd a hefyd yn cynnig cefnogaeth yn Saesneg i'r plant hynny nad oeddent yn gallu deall Cymraeg. Roedd yr arweinwyr a'r staff i gyd wedi ymrwmo i ddarparu'r 'Cynnig Gweithredol' ac i hybu'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn gweithredu polisïau'r gwasanaeth mewn modd effeithiol yn eu gwaith bob dydd.

4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn ceisio adborth am eu gwasanaeth gan y staff, y plant a'r rhieni er mwyn gwella eu gwasanaeth.

Roedd yr arweinwyr wedi casglu adborth gan rieni a phlant. Roedd y staff yn gallu trafod eu barn yn ystod cyfarfodydd staff ac roedd gofyn i rieni a staff hefyd gwblhau holiaduron yn mynegi eu barn ar y gwasanaeth. Roedd adborth yn cael ei gasglu gan y plant ar lafar a thrwy arsylwadau cyffredinol yn ystod y sesiynau. Roedd blwch awgrymiadau yn y brif dderbynfa ar gyfer y gwasanaeth a gwahoddwyd ymwelwyr i rannu adborth ynghylch y gwasanaeth yn y llyfr ymwelwyr. Defnyddiwyd yr adborth hwn i lunio adolygiad o ansawdd gofal y gwasanaeth, a gafodd ei gyflwyno i ni'n flaenorol fel rhan o'r Datganiad Hunanasesu

Gwasanaeth. Roedd yr arweinwyr wedi llunio cynllun gweithredu er mwyn rhoi newidiadau ar waith a gwella arferion yn seiliedig ar yr adborth a dderbyniwyd, ac unrhyw feysydd eraill yr oeddent wedi'u nodi i'w gwella.

Mae'r arweinwyr wedi ymroddi i wella'u gwasanaeth ac yn myfyrio ar eu harfer.

4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn cyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol, sy'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i'r plant.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol yn ystod y sesiynau, gan sicrhau bod plant yn cael y gefnogaeth yr oedd ei hangen arnynt a bod tasgau cyffredinol yn cael eu cwblhau, megis glanhau a pharatoi byrbrydau. Roedd ffeiliau ar gael ar gyfer pob aelod o staff a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi cwblhau rhaglen ymsefydlu. Gwelsom fod tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a gwahardd un aelod o staff wedi dod i ben. Gwnaethom ofyn i'r unigolyn cyfrifol am hyn a wnaeth esbonio'r rheswm dros hyn. Roedd y cais wedi cael ei anfon i'w hadnewyddu ac ar hyn o bryd roedd yr aelod o staff yn gweithio dan oruchwyliaeth nes i'r dystysgrif gael ei dychwelyd.

Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt berthynas weithio dda â'r person â gofal a'r unigolyn cyfrifol. Gwnaethant ddweud bod yr arweinwyr yn hawdd mynd atynt ac ar gael i ateb unrhyw ymholiadau unrhyw bryd. Dywedodd y staff fod ganddynt gyfleoedd rheolaidd ar gyfer goruchwyliaeth, yr oedd dystiolaeth o hyn i'w gweld yn ffeiliau'r staff.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn rheoli, yn cefnogi ac yn defnyddio staff yn effeithiol er mwyn rhoi'r cymorth sydd ei angen ar y plant.

4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn annog cyfathrebu rhwng pob parti er mwyn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu'n effeithiol.

Mae'r arweinwyr yn rhannu gwybodaeth â rhieni'n effeithiol. Gwelsom dystiolaeth mewn ffeil o wybodaeth a gasglwyd gan rieni gyda manylion anghenion penodol, hoffterau a chasbethau plant, a sut roedd y gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni i sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu. Gwelsom fod gan staff berthnasau cadarnhaol â rhieni a'u bod yn rhannu gwybodaeth ar lafar ar ddiwedd pob sesiwn. Roedd staff hefyd yn rhoi cofnod ysgrifenedig i rieni o weithgareddau dyddiol eu plentyn. Roedd y llawlyfr rhieni a welsom yn cynnwys digon o wybodaeth i sicrhau bod rhieni'n deall y gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarperir, fel eu bod yn ymwybodol o'r hyn roedd y gwasanaeth yn ei gynnig cyn i'w plentyn ddechrau mynychu. Dywedodd y staff wrthym fod rhieni'n cael eu gwahodd yn rheolaidd i ddod i nosweithiau rhieni i drafod datblygiad y plant a gweld samplau o'u gwaith.

Roedd yr arweinwyr yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd ac yn gweithio'n agos gyda phartneriaid o'r rhaglen Dechrau'n Deg, gan gynnwys ymwelwyr iechyd a therapyddion iaith

a lleferydd. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithio gyda sawl asiantaeth a bod teuluoedd yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Mae hyn yn digwydd yn fwy yn y lleoliad hwn oherwydd bod y gwasanaeth yng Nghanolfan Integredig Plas Pawb. Mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r tîm cefnogi teuluoedd ac yn gweithredu gwasanaeth crèche teithiol i alluogi i rieni fynd ar gyrsiau. Mae hyn yn gwella canlyniadau i blant a'u teuluoedd drwy sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth gywir ar gyfer eu hanghenion. Roedd y rheini y gwnaethom siarad â nhw'n canmol y staff ac yn dweud bod y gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod partneriaethau da gyda'r rhieni a chyda gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn gwella'r canlyniadau i blant.

5. Gwelliannau y mae angen eu gwneud ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom ddweud wrth y person cofrestredig nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Rheoleiddiad canlynol.

Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio am na chanfuom dystiolaeth, ar yr achlysur hwn, fod hyn yn cael effaith niweidiol ar les y plant. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r person cofrestredig gymryd camau gweithredu i roi sylw i'r mater hwn:

Gwelsom nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio o ran *Rheoliadau gwarchod plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010*

Rheoliad 38:

Mae'n rhaid i'r arweinwyr sicrhau, drwy ymarferion tân ar gyfnodau addas, fod y staff a'r plant yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn mewn achos o dân. Nid dyma oedd yr achos ar adeg yr arolygiad oherwydd nid oedd y cofnodion yn dangos bod ymarferion tân wedi cael eu cynnal ers mis Gorffennaf 2017, sef wyth mis cyn adeg yr arolygiad. Roedd ymarferion tân blaenorol wedi cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn. Gyda'r feithrinfa'n safle mor brysur gyda phlant a staff newydd yn dechrau yn y feithrinfa drwy gydol y flwyddyn, mae hyn yn cynyddu'r risg na fydd y staff a'r plant yn gyfarwydd â sut i ymadael â'r safle'n ddiogel mewn argyfwng.

Ers hynny, rydym wedi derbyn tystiolaeth bod ymarfer tân wedi cael ei gynnal; fodd bynnag, mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod y rhain yn cael eu cynnal ar gyfnodau addas yn y dyfodol.

Gwnaethom hefyd yr argymhellion arfer da canlynol:

- Gallai'r staff gynnig mwy o gyfleoedd i'r plant helpu yn ystod amser byrbryd ac amser prydau i helpu gyda'u hannibyniaeth a gwella'u datblygiad;
- Dylai'r arweinwyr sicrhau bod manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Cymru wedi'u diweddarau yn y datganiad o ddiben a pholisïau'r gwasanaeth.

6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad dirybudd llawn oedd hwn a gynhaliwyd yn rhan o'n hamserlen arferol o arolygiadau. Gwnaethom hefyd ystyried agweddau ar arweinyddiaeth a rheolaeth a chawsom gyfarfod gyda'r unigolyn cyfrifol ar ôl derbyn pryder ynghylch problemau staffio.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 20 Mawrth 2018 rhwng 8.30am a 5.10pm

Gwnaethom:

- Archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau;
- Defnyddio ein Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygu (SOFI 2) i gasglu tystiolaeth o fywyd y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r gofal a ddarperir gan y staff;
- Siarad â'r plant, y staff a'r person cyfrifol a gadael holiaduron i rieni;
- Edrych ar y manau a'r adnoddau roedd plant yn eu defnyddio ar ddiwrnod ein harolygiad;
- Rhoi adborth i'r unigolyn cyfrifol am yr hyn a welsom a'r hyn y mae angen rhoi sylw iddo.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan, www.aggcc.org.uk

7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Gofal dydd plant Gofal dydd llawn
Unigolyn cyfrifol	Sioned Owen
Person â gofal	Zara Khan
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	52
Ystod oedran y plant	3 mis hyd at 12 oed
Oriau agor	8am i 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Iaith weithredol y gwasanaeth	Cymraeg
Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC	22 Mawrth 2016
Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn	20 Mawrth 2018
Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Ydy
A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed?	Nac ydy
Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu 'cynnig gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, nodi a bodloni anghenion y bobl sy'n defnyddio neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth o ran yr iaith Gymraeg a'i diwylliant.
Gwybodaeth ychwanegol:	